| | |
|---|---|
| **From:** | Kieran Somers |
| **To:** | Wylfa Newydd; Kay Sully; KJ Johansson |
| **Cc:** | Aaron.Buckley@jacobs.com; David Palmer (Contractor); Iwan.Williams@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk; Aron, Henry; energyisland@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk; James.Hooker@gov.wales; Dylan Williams; PMO; Neil Burke |
| **Subject:** | Wylfa Newydd DCO Deadline 3 Submissions (Email 4 of 8) [NOT PROTECTIVELY MARKED] |
| **Date:** | 17 December 2018 18:34:45 |
| **Attachments:** | 38 Horizon"s Response to Written Representation - Menter Iaith Môn Welsh Translation .pdf<br>39 Horizon"s Response to Written Representation - Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Mon .pdf<br>40 Horizon"s Response to Written Representation - Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Mon Welsh Version .pdf<br>41 Applicants responses to Batch 1 NMC Comments.pdf<br>42 Draft DCO s.106 Agreement.pdf<br>43 Status Update Paper for Key Issues arising from the Draft DCO s.106 Agreement.pdf<br>44 Addendum to Seabird Baseline Report Disturbance Monitoring at Cemlyn Lagoon.pdf<br>45 Addendum to 2018 Chough Baseline Report.pdf<br>35 Horizon's Response to Written Representation - Pinsent Masons on behalf of Land and Lakes .pdf<br>36 Horizon"s Response to Written Representation - Bryngwran Community Council .pdf<br>37 Horizon"s Response to Written Representation - Menter Iaith Môn .pdf |

Good Evening

This is the fourth in a series of 8 e-mails for the Wylfa Newydd DCO Examination Deadline 3 deliverables.

The list below provides a complete list of all documents attached to this e-mail and we will also be delivering 2x USB pen drives containing all of our Deadline 3 submission to your offices at 10:00 tomorrow (Tuesday 18th December).

35 Horizon's Response to Written Representation - Pinsent Masons on behalf of Land and Lakes .pdf
36 Horizon's Response to Written Representation - Bryngwran Community Council .pdf
37 Horizon's Response to Written Representation - Menter Iaith Môn .pdf
38 Horizon's Response to Written Representation - Menter Iaith Môn Welsh Translation .pdf
39 Horizon's Response to Written Representation - Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Mon .pdf
40 Horizon's Response to Written Representation - Clybiau Ffermwyr Ifanc Ynys Mon Welsh Version .pdf
41 Applicants responses to Batch 1 NMC Comments.pdf
42 Draft DCO s.106 Agreement.pdf
43 Status Update Paper for Key Issues arising from the Draft DCO s.106 Agreement.pdf
44 Addendum to Seabird Baseline Report Disturbance Monitoring at Cemlyn Lagoon.pdf
45 Addendum to 2018 Chough Baseline Report.pdf

Kind Regards

Kieran Somers
Head of Planning
Pennaeth Cynllunio

HORIZON NUCLEAR POWER
Sunrise House
1420 Charlton Court
Gloucester Business Park
Gloucester
GL3 4AE

Tel: +44 (0) 1242 507 681
Mobile: [redacted]
kieran.somers@Horizonnuclearpower.com

NOT PROTECTIVELY MARKED
This email was classified on 17 December 2018 18:22:37.
Disclaimer Notice - This message and any attachments are confidential and should only be read by those to whom they are addressed. If you are not the intended recipient, please contact us

immediately by emailing or telephoning the sender, delete the message from your computer and destroy any copies. Any distribution or copying without our prior permission is prohibited. For the avoidance of doubt the contents of this email are subject to contract and will not constitute a legally binding contract, unless specifically stated otherwise. Internet communications are not always secure and therefore Horizon Nuclear Power Limited and its affiliates do not accept legal responsibility for this message. The recipient is responsible for verifying its authenticity before acting on the contents. Any views or opinions presented are solely those of the author and do not necessarily represent those of Horizon Nuclear Power Limited or any of its affiliates.

Horizon Nuclear Power Limited is registered in England and Wales with company number 06660388 and its registered office is at Sunrise House, 1420 Charlton Court, Gloucester Business Park, Gloucester, GL3 4AE. Horizon Nuclear Power Oldbury Limited (registered in England and Wales with company number 06811995), Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (registered in England and Wales with company number 06811987), Horizon Nuclear Power Wylfa Holdings Limited (registered in England and Wales with company number 09641958) and Horizon Nuclear Power Services Limited (registered in England and Wales with company number 06812099) are all affiliates of Horizon Nuclear Power Limited and have the same registered office as that company. For further information about Horizon Nuclear Power Limited and its affiliates, please see our website at www.horizonnuclearpower.com.

---

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.
For more information please visit http://www.symanteccloud.com

---

HORIZON
NUCLEAR POWER

WYLFA NEWYDD

ENERGY WORKING FOR BRITAIN

# Wylfa Newydd Project

## Horizon's Response to Written Representation - Menter Iaith Môn (Welsh Language Translation)

PINS Reference Number: EN010007

18 December 2018

Revision 1.0
Examination Deadline 3

Planning Act 2008
Infrastructure Planning (Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009

Horizon Internal DCRM Number: WN0902-HZDCO-PAC-REP-00100_Welsh

[This page is intentionally blank]

# Cynnwys

1 Ymateb Horizon i Sylwadau Ysgrifenedig Menter Iaith Môn ... 1
1.1 Cyflwyniad ... 1
1.2 Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant ... 1
1.3 Mesurau lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ... 2

[Mae’r dudalen hon i fod yn wag]

# 1 Ymateb Horizon i Sylwadau Ysgrifenedig Menter Iaith Môn

## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae Horizon wedi adolygu Sylwadau Ysgrifenedig Menter Iaith Môn a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 2 (4 Rhagfyr 2018) [REP2-273]. Er hwylustod, rhoddir croes-gyfeiriadau (pan fo hynny'n briodol ac yn ymarferol) ac yn gyffredinol mae'r ymateb yn dilyn strwythur a threfn y sylwadau ysgrifenedig a ddaeth i law. Mae Horizon wedi ymdrechu i ymateb i'r prif faterion a godwyd yn y sylwadau ysgrifenedig hyn. Os nad ydy Horizon wedi ymateb i bwynt neu fater penodol a godwyd gan Barti sydd â Diddordeb, ni ddylid ystyried bod hynny o reidrwydd yn golygu ein bod yn cytuno â'r pwynt hwnnw.

1.1.2 Yn ystod yr Archwiliad bydd cyflwyniad swyddogol Horizon i'r Arolygiaeth Gynllunio yn Saesneg.

1.1.3 Fodd bynnag, ar gyfer sylwadau annhechnegol a gyflwynir yn Gymraeg, ac yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, byddwn yn cyfieithu ein hymateb i'r Gymraeg a bydd yn dilyn mor fuan ag sy'n ymarferol. Cofiwch fod elfen o ddehongli mewn cyfieithu ac ni all Horizon warantu cywirdeb y cyfieithiad o'r Saesneg i'r Gymraeg, nac ystyr cyfreithiol rhai geiriau ar ôl iddynt gael eu cyfieithu, fodd bynnag rydym yn gweithio gyda chyfieithwyr proffesiynol cymwys er mwyn lleihau tebygolrwydd unrhyw broblemau o ran dehongli.'

## 1.2 Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant

### Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

1.2.1 Mae Horizon wedi ymrwymo i warchod a hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant fel rhan o Brosiect DCO Wylfa Newydd. Mae Horizon yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant i gymunedau Ynys Môn a gogledd Cymru. Mae Horizon wedi ymrwymo i gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ar draws pob agwedd ar Brosiect DCO Wylfa Newydd yn ystod ei oes, gan gynnwys datblygu mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella effeithiau manteisiol.

1.2.2 Mae'r Cytundeb Adran 106 DCO drafft a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 3 (18 Rhagfyr 2018), yn sicrhau mesurau lliniaru a gwella mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Rhoddir mwy o sylw i'r mesurau lliniaru hyn yn adran 1.3 yr ymateb hwn.

1.2.3 Roedd Cynllun Corfforaethol 2016-1019 Menter Iaith Môn wedi cyfrannu at yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg [APP-432]. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cyfeirio at fentrau Menter Iaith Môn. Mae Horizon yn croesawu cyflwyno cynlluniau gwaith 2017-18 a 2018-2019 gyda Sylwadau Ysgrifenedig Menter Iaith Môn. Mae'r rhain yn dod o dan y Cynllun Corfforaethol, a byddant yn cefnogi gwaith Horizon ar weithredu'r mesurau lliniaru a gwella yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant a fydd wedi'u sicrhau o dan y cytundeb adran 106 DCO drafft a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 3 (18 Rhagfyr 2018).

1.2.4 Mae Horizon yn cytuno â dadansoddiad Menter Iaith Môn o ddata Cyfrifiad 2011 ar gyfran y siaradwyr Cymraeg, a chaiff yr wybodaeth hon ei chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Ar ben hynny, roedd Proffil Iaith 2015 Ynys Môn (a baratowyd gan Gyngor Gwynedd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn) a ddarparwyd gan Fenter Iaith Môn wedi cyfrannu at yr asesiad.

1.2.5 Bydd Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn (2018) yn cyfrannu at waith Cydlynydd yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, wedi'i sicrhau drwy'r cytundeb adran 106 DCO drafft, a fydd, cyn adeiladu, yn hoelio sylw ar ddatblygu a gweithredu ymhellach y mesurau gwella a lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant, fel y byddant wedi'u sicrhau drwy'r cytundeb adran 106 DCO drafft a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 3 (18 Rhagfyr 2018).

1.2.6 Gan gyfeirio at y Cynllun Llesiant, mae Horizon yn nodi bod yr asesiad wedi rhoi blaenoriaeth gymunedol o warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, sydd maes o law yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o dan yr Amcan Llesiant 'cymunedau sy'n ffynnu ac yn ffyniannus yn y tymor hir'. Mae Horizon yn llwyr ymwybodol o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant i gymunedau Ynys Môn a gogledd Cymru.

## 1.3 Mesurau lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg a'i diwylliant

1.3.1 Mae Horizon wedi ymrwymo i gefnogi a hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ar draws pob agwedd ar Brosiect DCO Wylfa Newydd yn ystod ei oes, gan gynnwys datblygu mesurau i liniaru effeithiau niweidiol a gwella effeithiau manteisiol.

1.3.2 Mae'r mesurau a gyflwynir yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg atodiad B4-1) [APP-432] yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r effeithiau a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant o ganlyniad i'r mewnlifiad o weithwyr adeiladu di-Gymraeg a'u teuluoedd. Caiff y rhain eu sicrhau drwy Atodlen 1 o'r cytundeb adran 106 DCO drafft ac maen nhw'n cynnwys mesurau sy'n canolbwyntio ar:

- Rheolaeth a pholisi iaith Gymraeg dan arweiniad y datblygwr;
- Recriwtio a gyrfaoedd;
- Ymgysylltu â chontractwyr;
- Cyfraniad (Blynyddol) at Addysg Gymraeg;
- Cyfraniad at Swyddog Iaith Gymraeg;
- Dyletswyddau Ymgysylltu Cymunedol;
- Casglu data ar ddibynyddion y gweithlu drwy'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr; a
- Cyfraniad at Wasanaeth Cyfieithu Cymunedol.

1.3.3 Ar ben hynny, caiff cyllid ar gyfer swyddogion cynnwys y gymuned, sy'n chwarae rhan bwysig o ran cydlyniad cymunedol, ei nodi yn Atodlen 14 y cytundeb adran 106 DCO drafft a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 3 (18 Rhagfyr 2018).

### Hyfforddwyr ac athrawon cyfrwng Cymraeg

1.3.4 Mae Menter Iaith Môn yn codi pryderon ynghylch effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar y prinder presennol o athrawon pwnc cyfrwng Cymraeg a'r athrawon trochi Cymraeg ar Ynys Môn.

1.3.5 Mae Horizon wedi ymrwymo i gyfraniad blynyddol at addysg Gymraeg (wedi'i sicrhau yn y cytundeb adran 106 DCO drafft) a fydd yn cael ei ddefnyddio gan Gyngor Sir Ynys Môn i gyflogi dau athro trochi neu ragor i gefnogi'r capasiti addysg trochi Cymraeg presennol. Bydd y taliad cyntaf yn cael ei wneud cyn gweithredu.

1.3.6 Mae ymateb Horizon i Gwestiwn Ysgrifenedig Cyntaf yr Awdurdod Archwilio Q.10.5.2 [REP2-002] yn rhoi tystiolaeth ynghylch argaeledd athrawon, faint o amser mae'n ei gymryd i hyfforddi athro, a chymarebau recriwtio.

1.3.7 Ar ben hynny, mae'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn cydnabod bod canolfannau trochi iaith presennol ar Ynys Môn yn llawn ac y byddai dibynyddion oed ysgol yn ystod cyfnod prysuraf y cam adeiladu a gweithredu yn cynyddu'r galw am lefydd yn sylweddol y tu hwnt i gapasiti'r canolfannau trochi iaith. Mae Horizon yn llawn gydnabod rôl a llwyddiant canolfannau trochi ym mhrif ardal yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol ac mae'n credu y bydd y mesurau lliniaru a gynigir yn helpu drwy gynyddu capasiti yn y canolfannau trochi iaith presennol.

### Cyfleoedd cyflogaeth a sgiliau ym Mhrosiect DCO Wylfa Newydd

1.3.8 Mae Horizon yn cydnabod bod rhan o bryderon Menter Iaith Môn o ran yr iaith Gymraeg yn deillio o'r allfudo net negyddol presennol ymysg y grŵp oed 15 i 29.

1.3.9 Yn hyn y beth, mae Horizon yn nodi yn ogystal â'r mesurau lliniaru penodol yng nghyswllt yr iaith Gymraeg sydd wedi'u sicrhau yn y cytundeb adran 106 DCO drafft a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 3 (18 Rhagfyr 2018), bod cyfres o fesurau lliniaru wedi'u sicrhau yn y cytundeb adran 106 DCO drafft a gyflwynwyd ar Ddyddiad Cau 3 (18 Rhagfyr 2018) a fydd yn hybu cyfleoedd gwaith ym Mhrosiect DCO Wylfa Newydd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, darparu Cronfa Sgiliau a fydd yn cael ei defnyddio i gefnogi mentrau cyflogaeth a hyfforddiant a nodir gan yr Is-grŵp Swyddi a Sgiliau fel gweithgareddau addysg sy'n canolbwyntio ar bynciau STEM i hyrwyddo sgiliau a diddordeb sy'n berthnasol i Brosiect DCO Wylfa Newydd.

### Monitro ac adrodd ar yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant

1.3.10 Fel rhan o'i ymrwymiad i fonitro effeithiolrwydd y mesurau sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, mae Atodlen 1 o'r Cytundeb Adran 106 DCO Drafft yn rhoi ymrwymiad y bydd Horizon yn adrodd i'r Is-grŵp Iaith Gymraeg a'i Diwylliant:

- Bob chwe mis ar weithredu a pherfformiad ei ddyletswyddau mewn perthynas â rheolaeth a pholisi iaith Gymraeg dan arweiniad y Datblygwr,

recriwtio a gyrfaoedd, ymgysylltu â chontractwyr a Chyfraniad at Swyddog Iaith Gymraeg;

- Yn chwarterol mewn perthynas â chasglu data ar ddibynyddion y gweithlu drwy'r Gwasanaeth Rheoli Llety Gweithwyr; ac
- Ar ôl gorffen y gwerthusiadau o effaith Prosiect DCO Wylfa Newydd ar yr iaith Gymraeg yn ardal allweddol yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol.

### Ymgysylltiad Menter Iaith Môn

1.3.11 Mae Horizon yn croesawu ymgysylltiad ac ymwneud parhaus Menter Iaith Môn gyda Phrosiect DCO Wylfa Newydd. Mae Menter Iaith Môn yn rhan o Menter Môn, sy'n aelod o grŵp llywio'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Caiff rôl y grŵp llywio ei ddisgrifio yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Cafodd y mesurau a gyflwynir yn y Strategaeth Gwella a Lliniaru yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant (Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg atodiad B4-1) eu datblygu ar y cyd gyda'r grŵp llywio. Croesewir ymwneud parhaus Menter Iaith Môn ac, yn y perwyl hwn, mae Horizon yn nodi y bydd gan Menter Iaith Môn gyfle i gymryd rhan yn yr Is-grŵp Iaith Gymraeg a'i Diwylliant a fydd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan.